------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Medi 2016

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Sarah Beasley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddIechyd@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 3 a 4

Er mwyn ystyried:

- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Plismona a Throseddu
- Bil Cymru Llywodraeth y DU

## 3 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Plismona a Throseddu: ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

(09.15 - 09.30) (Tudalennau 1 - 17)

## 4 Craffu ar Fil Cymru Llywodraeth y DU

(09.30 - 10.00) (Tudalennau 18 - 43)

## 5 Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol - trafod blaenoriaethau

(10.00 - 12.00) (Tudalennau 44 - 67)

Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru
Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol

## 6 Papurau i'w nodi

**Llythyr gan y Llywydd at Gadeiryddion Pwyllgor ynghylch datganiadau Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn**

(Tudalennau 68 - 69)

**Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ynghylch goblygiadau'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd i Gymru**

(Tudalennau 70 - 74)

**Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Bil Cymru Llywodraeth y DU**

(Tudalennau 75 - 76)

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Er mwyn ystyried:

- tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a'r Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan eitem 5
- y flaenraglen waith
- cynllunio strategol a thrafod ymchwiliadau posibl

## 8 Trafod tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a'r Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(12.00 - 12.15)

## 9 Trafod y flaenraglen waith ar gyfer tymor yr hydref

(12.15 - 12.45) (Tudalennau 77 - 80)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## SESIWN CRAFFU GYDA'R PWYLLGOR IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A CHWARAEON - 15 MEDI, 2016

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU: Y PWYLLGOR IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A CHWARAEON**

**Dyddiad: 15 Medi 2016**
**Lleoliad: Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### DIBEN

1. Diben y papur hwn yw rhoi diweddariad ynghylch y blaenoriaethau a'r cynnydd a wnaed yn ein maes portffolio Gweinidogol, ar gyfer y sesiwn Pwyllgor ar 15 Medi 2016. Mae hefyd yn cwmpasu pynciau y gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth amdanynt.

### BLAENORIAETHAU CYFLWYNO CYNNAR

2. Roedd datganiad y Prif Weinidog ar Symud Cymru Ymlaen yn cynnwys nifer o ymrwymiadau y rhoddir blaenoriaeth iddynt sy'n perthyn yn bennaf i'n portffolio Gweinidogol - cronfa triniaeth newydd; recriwtio a hyfforddi mwy o Feddygon Teulu; cynyddu'r terfyn cyfalaf ar gyfer gofal preswyl; ac adolygiad Seneddol o iechyd a gofal cymdeithasol. Rhoddir y newyddion diweddaraf am bob un o'r rhain isod.

### Sefydlu Cronfa Triniaeth Newydd, ar gyfer cyffuriau a thriniaethau newydd

3. Bydd y gronfa driniaeth newydd yn cefnogi'r dasg o gyflwyno'n gynnar y meddyginiaethau cost uchel mwyaf newydd a mwyaf arloesol sydd wedi cael eu hargymell gan NICE neu AWMSG. Byddwn yn sicrhau bod £80 miliwn ar gael dros oes y llywodraeth hon er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau newydd, sy'n ymdrin ag angen clinigol heb ei ddiwallu ac sy'n cynrychioli cam sylweddol ymlaen ar gyfer trin clefydau sy'n bygwth bywyd ac sy'n cyfyngu ar fywyd, ar gael. Bydd yr arian hwn yn cael ei ddarparu yn gyson ar draws Cymru cyn gynted ag y bo modd yn dilyn argymhelliad cadarnhaol gan naill ai NICE neu AWMSG.

4. Bydd y gronfa driniaeth newydd yn talu cost y meddyginiaethau newydd hyn am uchafswm o 12 mis, gan roi amser i fyrddau iechyd gynllunio a blaenoriaethu cyllid o'r tu mewn i'w cyllidebau.

5. Mae'r gronfa wedi datblygu o'n profiad ni o sicrhau bod triniaethau cost uchel newydd ar gyfer amrywiaeth o gyflyrau sy'n newid bywyd ar gael i bobl yng Nghymru. Yn 2015-16, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid sylweddol o'i chronfeydd wrth gefn canolog i alluogi'r GIG i ariannu pedair o driniaethau newydd ar gyfer hepatitis C a thriniaeth newydd ar gyfer clefyd prin, genetig a chynyddol o'r enw 'Haemolytic Uraemic Syndrome' annodweddiadol (aHUS). Roedd y meddyginiaethau yn gam mawr ymlaen o ran triniaeth ac fe sicrhawyd manteision sylweddol i gleifion o ran iechyd a manteision cymdeithasol. Mae'n hanfodol fod y gronfa driniaeth newydd yn cael ei gweithredu'n dryloyw ac yn cael ei deall yn eang. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu mecanwaith i reoli'r gronfa yn effeithiol. Rydym yn rhagweld y bydd y gronfa yn weithredol erbyn mis Rhagfyr.

**Recriwtio a hyfforddi mwy o Feddygon Teulu a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd sylfaenol eraill**

6. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau breision o ran datblygu cynigion ar gyfer ymgyrch genedlaethol a rhyngwladol i farchnata Cymru a GIG Cymru fel llefydd deniadol i hyfforddi a gweithio ynddynt cyn Ffair Yrfaoedd y BMJ ym mis Hydref. O ran hyfforddiant, byddwn yn datblygu ar y profiad cadarnhaol y mae ein hyfforddeion yng Nghymru yn ei gael, a gefnogir gan arolwg hyfforddiant cenedlaethol y GMC yn ddiweddar a ddangosodd fod gan Gymru gyfradd boddhad cyffredinol o 83.33%, sef yr uchaf yn y DU yn 2016.

7. Mae bargen newydd i Feddygon Teulu, ar ffurf cynnig Cymru yn cael ei ddatblygu i gyfleu'r manteision sydd eisoes yn bodoli i Feddygon Teulu yn ogystal ag ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i wella amodau gwaith ymhellach.

8. I oruchwylio'r gwaith o ddatblygu, gweithredu a chyflawni'r ymrwymiad, mae Tasglu Gweinidogol wedi'i sefydlu. Cyfarfu'r Tasglu am y tro cyntaf ar 11 Awst lle cytunwyd ar y cylch gorchwyl a lle cafodd y cynnig amlinellol ar gyfer Meddygon Teulu ei rannu a'i groesawu gan grwpiau cynrychioliadol.

9. Mae proffesiynau gofal sylfaenol eraill yn cael eu cynrychioli ar y grŵp cyn i ail gam yr ymgyrch gael ei ddatblygu a fydd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd timau amlddisgyblaethol a'r gwerth y gallai pob proffesiwn ei gynnig.

**Cynyddu'r cyfalaf y gallai pobl ei gadw wrth fynd i ofal preswyl i £50,000 a chyflwyno cynnig i anwybyddu Pensiynau Anabledd Rhyfel yn llwyr**

10. Un o'n chwech uchaf o ymrwymiadau "Symud Cymru Ymlaen" yw cynyddu'r terfyn cyfalaf a ddefnyddir gan awdurdodau lleol wrth godi tâl am ofal preswyl. Bydd hyn yn fwy na dyblu'r terfyn o'i lefel bresennol o £24,000 i £50,000, gan alluogi'r rhai sydd mewn gofal preswyl i gadw mwy o'u cyfalaf i'w ddefnyddio fel y mynnant. Rydym hefyd o Ebrill 2017 yn cyflwyno bwriad i anwybyddu Pensiynau Anabledd Rhyfel yn llwyr mewn asesiadau ariannol, fel nad oes gofyn i gyn-filwyr y lluoedd arfog ddefnyddio'r rhain i dalu am eu gofal. Ar hyn o bryd diystyrir y £25 yr wythnos gyntaf o bensiwn yn unig.

11. Ar wahân i'r goblygiadau ariannol, mae yna nifer o ganlyniadau i gynyddu'r terfyn cyfalaf o swm cymharol fawr o'r fath. O ganlyniad, mae'r Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried y dull mwyaf priodol o weithredu. Mae'r Gweinidog wedi comisiynu ymchwil annibynnol i ddilysu a diweddaru costau gweithredu'r ddau ymrwymiad, ac mae swyddogion wedi cychwyn ymgysylltu'n gynnar â chynrychiolwyr rhanddeiliaid. Mae hyn er mwyn nodi'r holl ganlyniadau o gynyddu'r terfyn cyfalaf, er mwyn ystyried sut y dylid ymdrin â'r rhain i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. Bwriada'r Gweinidog gyhoeddi ei chynlluniau ar gyfer eu gweithredu yn yr hydref.

**Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

12. Dywedodd y Prif Weinidog, fel rhan o'i ddatganiad, y byddem yn ceisio sefydlu Adolygiad Seneddol i ddyfodol tymor hir Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng

Nghymru. Ers hynny, mae trafodaethau wedi'u cynnal i greu consensws trawsbleidiol ar fanylion yr adolygiad, gan gynnwys y cylch gorchwyl, yr aelodaeth a’r amserlenni. Unwaith y bydd y manylion hyn wedi eu cwblhau gallwn fwrw ymlaen â sefydlu'r adolygiad. Mae'n hanfodol ein bod yn dod i ddealltwriaeth gyffredin ar draws y sbectrwm gwleidyddol ynghylch yr hyn y gallai’r adolygiad hwn ei gyflwyno, fel y gallwn wneud y gorau o'r cyfle y mae'n ei gynnig ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Byddaf yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau wrth i bethau ddatblygu.

**Iechyd Meddwl**

13. Fel rhan o'n hymrwymiad i gymryd camau pellach i wneud Cymru yn wlad gyfeillgar i ddementia byddwn yn datblygu cynllun gweithredu strategol ar ddementia erbyn diwedd y flwyddyn. Mae grŵp gorchwyl a gorffen amlasiantaethol yn cyfarfod ym mis Medi i ddechrau bwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Drwy gydol y gwaith o ddatblygu’r cynllun hwn, byddwn hefyd yn ymgysylltu â nifer eang o randdeiliaid.

14. Rydym yn parhau i weithio i wella mynediad at therapïau siarad ar gyfer pobl sydd â phroblem iechyd meddwl a nodwyd. Yn ychwanegol at y £3 miliwn o gyllid ychwanegol yn 2015/16, ar gyfer CAMHS a therapïau seicolegol i oedolion, rydym wedi sicrhau £1.15 miliwn ychwanegol o 2016/17 ymlaen yn benodol ar gyfer therapïau seicolegol mewn gwasanaethau i gleifion mewnol. Mae'r gwaith yn parhau i gael ei gefnogi gan y Pwyllgor Rheoli Therapïau Seicolegol Cenedlaethol a arweinir gan GIG Cymru.

15. Un flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon fydd sicrhau bod 'gwahaniaethu ar sail iechyd meddwl yn cael ei ddileu'. Ar hyn o bryd rydym yn cefnogi *Amser i Newid Cymru*, sef yr ymgyrch genedlaethol gyntaf i roi terfyn ar y stigma a'r gwahaniaethu a wynebir gan bobl sydd â phrofiad o broblemau iechyd meddwl yng Nghymru. Mae ymdrin â stigma a gwahaniaethu hefyd yn faes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu o fewn cynllun cyflawni *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* a fydd yn cael ei lansio cyn bo hir.

**Strategaeth Iechyd y Dyfodol**

16. Mae'r Strategaeth bresennol y GIG, *Law yn Llaw at Iechyd*, yn cwmpasu pum mlynedd o 2011, er bod llawer o'i chynlluniau cyflawni a dogfennau cysylltiedig eraill yn parhau y tu hwnt i 2016. Rydym wedi ymgysylltu â'r GIG a rhanddeiliaid allweddol drwy gydol y flwyddyn i nodi anghenion a blaenoriaethau strategol. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiad penodol ym mis Gorffennaf, a fynychwyd gan holl uwch arweinwyr GIG Cymru, lle y nodais fy mlaenoriaethau a’m disgwyliadau ar gyfer y strategaeth yn y dyfodol.

17. Bydd angen i weledigaeth a strategaeth GIG Cymru gyd-fynd â strategaeth drawsbynciol Llywodraeth Cymru ar iechyd a lles, a chyd-fynd hefyd â chanlyniad yr Adolygiad Seneddol i ddyfodol tymor hir iechyd a gofal. O ystyried yr angen i gysoni’r prosesau allweddol hyn, ac ansicrwydd ynghylch yr hyn y bydd Datganiad Cyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU yn ei ddweud, rwy’n dal i ystyried yr amserlen ar gyfer cyhoeddi strategaeth y GIG yn y dyfodol.

**Gofal Iechyd Darbodus**

18. Rwyf wedi gwneud fy ymrwymiad yn glir i gynnal gofal iechyd darbodus fel set o egwyddorion a ffyrdd o weithio y mae'n rhaid iddynt helpu i lunio ein system iechyd a gofal yn y dyfodol yng Nghymru. Mae egwyddorion gofal iechyd darbodus yn cael eu hymgorffori yn fframwaith cynllunio GIG Cymru fel thema drawsbynciol, a bydd hyn yn cael ei fonitro drwy adolygu perfformiad yn rheolaidd yn erbyn cynlluniau tymor canolig integredig GIG Cymru. Mae prif weithredwyr y GIG yn arwain y gwaith o weithredu'r camau a nodir yn *Sicrhau Iechyd a Lles Cenedlaethau'r Dyfodol,* a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, a byddaf yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y cynnydd.

**<u>Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy</u>**

19. Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu,* ymateb i *Gweithredu'r Weledigaeth*, adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru ac adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion. Cafodd y Rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru, sy'n cynnwys 9 o brosiectau gyda dwy elfen ddeddfwriaethol fawr, ei sefydlu i gyflawni'r newidiadau a amlinellwyd yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru.* Daeth y rhaglen bum mlynedd i ben ym mis Ebrill 2016 ar ôl cyflwyno dwy Ddeddf sylweddol a phecyn sylweddol o is-ddeddfwriaeth.

20. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn darparu dull Cymreig unigryw o hyrwyddo annibyniaeth dinasyddion; gan roi llais cryf a rheolaeth wirioneddol iddynt a'u gosod wrth galon penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth eu hunain. Drwy'r Ddeddf a gweithredu cysylltiedig mae'r rhaglen hefyd wedi darparu fframwaith gwella newydd i Gymru a fframwaith ar gyfer canlyniadau cenedlaethol; model newydd ar gyfer gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd a threfniadau amddiffyn a diogelu cryfach ar gyfer pobl sydd mewn perygl.

21. Derbyniodd y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r drefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau gofal a chefnogi i sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau, i wella cymorth ar gyfer y gweithlu drwy sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru ac i ddiwygio'r ffordd y mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yn cael ei reoleiddio.

22. Nodwedd bwysig o'n dull cyflawni o dan y rhaglen fu ffocws ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyd-gynhyrchu, drwy grwpiau technegol o randdeiliaid allweddol a thrwy gynghrair arweinyddiaeth genedlaethol ar dair haen sy'n darparu fforymau ar gyfer ymgysylltu ag uwch wleidyddion, swyddogion gweithredol ac â dinasyddion.

23. Rydym yn awr yn datblygu strwythur a chwmpas ar gyfer rhaglen olynol, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau gwell i bobl; safonau a gwelliant; diogelu; integreiddio, partneriaeth a chydweithredu ac ariannu tecach a sefydlogrwydd yn y sector, gan gynnwys ein hymrwymiad *"Symud Cymru Ymlaen"* ynghylch cynyddu'r terfyn cyfalaf a ddefnyddir gan awdurdodau lleol wrth godi tâl am ofal preswyl. Rwy'n benderfynol y bydd y dull hwn o ymgysylltu a gymerwyd wrth

ddarparu  Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yn parhau i fod wrth wraidd y rhaglen newydd hon.

24. Sefydlwyd y Gronfa Gofal Canolraddol (ICF) yn 2014-15 gyda'r nod o wella gwasanaethau cyhoeddus drwy integreiddio gwasanaethau tai, iechyd a gofal cymdeithasol.  Yn y flwyddyn ariannol hon dyfarnwyd £60 miliwn i barhau i gefnogi mentrau sydd eisoes yn bodoli sy'n atal derbyniadau diangen i'r ysbyty, derbyn pobl yn amhriodol i ofal preswyl, ac oedi wrth ryddhau pobl o'r ysbyty. Cafodd y gronfa hon, fodd bynnag, ei hehangu eleni i ddarparu ar gyfer datblygu gwasanaethau gofal a chymorth integredig i grwpiau eraill o bobl gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu, awtistiaeth, a phlant ag anghenion cymhleth.

25. Sefydlwyd y Gronfa Gofal Canolraddol (ICF) yn 2014-15 ac mae wedi cael ei defnyddio i ddatblygu modelau newydd ac arloesol o weithio integredig rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol. Yn y flwyddyn ariannol hon dyfarnwyd £60 miliwn i barhau i gefnogi mentrau sydd eisoes yn bodoli sy'n atal derbyniadau diangen i'r ysbyty, derbyn pobl yn amhriodol i ofal preswyl, ac oedi wrth ryddhau pobl o'r ysbyty.  Cafodd y gronfa hon, fodd bynnag, ei hehangu eleni i ddarparu ar gyfer datblygu gwasanaethau gofal a chymorth integredig i grwpiau eraill o bobl gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu, awtistiaeth, a phlant ag anghenion cymhleth.  Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod cyllid y Gronfa Gofal Canolraddol (ICF) yn rheolaidd.  Ond ar sail flynyddol yn unig y mae cyllid wedi ei ddyrannu hyd yma.

**<u>LLESIANT CENEDLAETHAU’R DYFODOL</u>**

26. Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn arwain ein strategaeth iechyd a gofal ar gyfer Cymru yn y dyfodol, fel rhan o bolisi ehangach y llywodraeth a'r dull o’i gyflenwi.  Mae'n gyfle i sicrhau bod ehangder polisi'r Llywodraeth yn cyfrannu at iechyd a lles, gan gydnabod nad yw gofal iechyd yn ddim ond un o benderfynyddion iechyd gwell.  Mae'n darparu fframwaith ar gyfer ystyried yn gyfunol sut y gallai cyflogaeth dda, tai o ansawdd, cefnogaeth gref yn y blynyddoedd cynnar ac addysg dda i gyd gyfrannu at ganlyniadau iechyd gwell.

27. Mae hefyd yn gyfle i ni i bwysleisio sut mae'r system iechyd a gofal yng Nghymru yn cyfrannu at gryfhau ein heconomi, at weithlu mwy medrus ac uchelgeisiol, a gwneud ein cymunedau'n fwy gwydn.  Mae iechyd a gofal yn rhan fawr o wariant blynyddol Llywodraeth Cymru, ac mae'n rhaid sicrhau eu bod yn cyfrannu at gyflawni agenda'r llywodraeth gyfan o gynaliadwyedd a sicrhau cyfle, a ffyniant. Rydym yn cefnogi'r sector drwy weithdai, canllawiau ac adnoddau i sicrhau y gallant gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf.

28. Bydd adroddiad y Prif Swyddog Meddygol sydd wedi’i gynllunio yn annog canolbwyntio ar reoli'r galw trwy gydol y cwrs bywyd ac o fewn y gwasanaeth. Mae'n rhaid i'r GIG ymarfer rôl arweiniol wrth gydweithio ar draws y sector cyhoeddus i leihau angen iechyd cynyddol ac anghyfartaledd o'r cyfnod cyn geni. Mae galw hefyd yn codi o arfer ac ymarfer clinigol ac mae angen ei reoli er mwyn lleihau graddfa'r angen am ofal ysbyty wrth ei helpu i fod yn amserol pan fydd ei angen.

29. Mae'n rhaid i ddiogelwch cleifion (a'r cyhoedd) gael ei ddyrchafu hefyd fel diben cyffredinol ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd. Bydd ffocws cyfunol ar alw a diogelwch yn trawsnewid mesurau perfformiad megis amserau aros a gofal brys.

**EWROP**

30. Rydym yn ymateb i ganlyniad y refferendwm ar yr UE ar sail y llywodraeth gyfan. Nid yw goblygiadau Brexit yn glir eto. Yn y tymor byr rydym yn ceisio cael eglurhad ynghylch rhaglenni ariannu'r UE, sy'n gwneud cyfraniad pwysig at gefnogi ymchwil gwyddorau bywyd, iechyd a gofal yng Nghymru, a hefyd at gydweithio â systemau gofal iechyd eraill ar draws yr UE. Rydym yn monitro goblygiadau posibl mewn nifer o feysydd sy'n berthnasol i iechyd, gan gynnwys, er enghraifft, recriwtio staff clinigol ac anghlinigol, trwyddedu meddyginiaethau newydd, rheoleiddio dyfeisiau meddygol, a hawliau i dderbyn triniaeth feddygol.

**PERFFORMIAD A GWELLA**

31. Mae parhau i wella ansawdd a pherfformiad gwasanaethau'r GIG yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae'r adran hon yn nodi rhywfaint o'r cynnydd a wnaed ar draws ystod o feysydd gwasanaeth.

**Ambiwlans**

32. Rhagorwyd ar y targed cenedlaethol i 65% o'r galwadau lle mae bywyd yn y fantol neu 'Goch' gael eu hateb o fewn wyth munud ym mhob mis ers cyflwyno'r cynllun peilot model o ymateb clinigol ym mis Hydref 2015. Ym mis Mehefin, cyrhaeddodd cyfanswm o 77.1% o ymatebion brys i'r math hwn o alwad o fewn wyth munud, gydag amser ymateb safonol o oddeutu pum munud. Er bod rhywfaint o amrywiaeth lleol yn parhau, cyrhaeddwyd y targed o fewn ardal pob bwrdd iechyd ym mis Mehefin a mis Gorffennaf.

**Adrannau Achosion Brys (EDs)**

33. Mae'r ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd yn dangos bod amserau aros mewn adrannau achosion brys ysbytai yng Nghymru yn parhau i wella. Er gwaethaf derbyn tua 2,880 bob dydd, treuliodd 83.2% o gleifion lai na 4 awr mewn adrannau achosion brys yn cael eu brysbennu, eu diagnosio a'u trin rhwng yr amser cyrraedd hyd nes cawsant eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau. Roedd yna ostyngiad hefyd yn nifer y bobl sy'n aros dros 12 awr. Mae mwy o waith i'w wneud gan fyrddau iechyd, a disgwylir iddynt weithio i wella profiadau cleifion a dileu oedi maith.

34. Yn nhermau mynychu Adrannau Achosion Brys - yn y cyfnod o Fawrth 2015 - Ebrill 2016 - cofnodwyd bod 1,165,738 wedi mynychu adrannau Achosion Brys Cymru (981,213 yn Ionawr - Rhagfyr 2015). Roedd y niferoedd a fynychodd yn Ionawr, Chwefror a Mawrth 2016 y niferoedd uchaf a gofnodwyd am yr un cyfnod, a bron i 10% (9.3%) yn uwch yn 2016 nag yn yr un cyfnod yn 2015.

**Canser**

35. Mae'r ffigurau diweddaraf a ryddhawyd ar gyfer Mehefin 2016 yn dangos er na chafodd targedau eu cyflawni, bod mwy o gleifion nag erioed yn cael eu trin o fewn yr amser targed. Mae'r ystadegau yn dangos bod 97.4% o gleifion (824 allan o 846 o bobl) a atgyfeiriwyd ar hyd llwybr y cleifion heb fod yn rhai brys, lle nad oedd amheuaeth i ddechrau fod canser yn bodoli, wedi dechrau triniaeth o

fewn 31 diwrnod i'r penderfyniad i'w trin. Y targed yw i 98% o gleifion wedi eu hatgyfeirio trwy'r llwybr hwn ddechrau triniaeth o fewn 31 diwrnod. Yn y cyfamser, fe wnaeth mwy o gleifion (86.5% neu 578 allan o 668 o bobl) a oedd newydd gael diagnosis drwy'r llwybr Atgyfeiriad Brys ar gyfer Amheuaeth o Ganser ddechrau triniaeth o fewn yr amser targed o 62 diwrnod, gostyngiad o 2.1 pwynt canran o'i gymharu â mis Mai.

**Datganiad Ansawdd Blynyddol GIG Cymru 2015**

36. Mae Datganiad Ansawdd Blynyddol GIG Cymru 2015 yn rhoi trosolwg o'r holl waith sy'n mynd ymlaen o fewn sefydliadau'r GIG i wella ansawdd y gofal o fewn GIG Cymru. Mae GIG Cymru yn gallu brolio am lawer o enghreifftiau o wasanaethau gorau'r byd ond lle gallai pethau fod yn well, mae staff yn gweithio'n ddiflino i wneud gwelliannau.

37. Bob blwyddyn, mae 18 miliwn o gysylltiadau ym maes gofal sylfaenol, hanner miliwn o alwadau ambiwlans a thri chwarter miliwn o dderbyniadau i'r ysbyty. Mae un filiwn o bobl yn mynychu adrannau Achosion Brys a Damweiniau, mae 78 miliwn o bresgripsiynau yn cael eu dosbarthu ac mae tair miliwn o apwyntiadau cleifion allanol yn cael eu cynnal. Canfu adroddiad diweddar y DU gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad Economaidd a Datblygu (OECD), ein bod yn blaenoriaethu gofal o ansawdd uchel a gofal sy'n canolbwyntio ar y claf.

**Adroddiad yr Arolygiaeth Gofal Iechyd**

38. Bob blwyddyn, mae cannoedd o filoedd o bobl yn cael gofal o ansawdd uchel, a diogel yng Nghymru. Nododd Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2015-16 nodweddion cadarnhaol yn y gwasanaeth, yn enwedig ynghylch ansawdd profiad y claf. Mae hyn yn unol â'n harolwg blynyddol diweddar a oedd yn dangos bod boddhad cyffredinol cleifion o fewn y GIG yn parhau i fod yn uchel iawn yma yng Nghymru. Lle mae'r adroddiad yn nodi meysydd lle mae angen gwella, rydym yn disgwyl i bob gwasanaeth iechyd gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau dysgu ehangach.

**DIWEDDARIADAU Y GOFYNNWYD AMDANYNT GAN Y PWYLLGOR**

39. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am ddiweddariadau ynghylch nifer o feysydd penodol. Mae'r adran isod yn ceisio darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

**GOFAL NEWYDDENEDIGOL**

40. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran datblygu gwasanaethau newyddenedigol yng Nghymru, yn benodol mewn ymateb i bryderon bod unedau newyddenedigol a gwasanaethau trafnidiaeth newyddenedigol yn dioddef o brinder staff ac adnoddau.

41. Mae 35,000 o fabanod yn cael eu geni yng Nghymru bob blwyddyn, y mae tua 1 o bob 12 ohonynt angen gofal newyddenedigol i achub bywyd. Ein nod yw sicrhau bod pob baban sydd angen gofal newyddenedigol yn cael y cyfle gorau o fywyd, a ddangoswyd drwy sefydlu Rhwydwaith Newyddenedigol Llywodraeth Cymru yn 2010. Mae'r Rhwydwaith yn darparu arweinyddiaeth ar draws y gwasanaethau ac yn cefnogi byrddau iechyd i wella sgiliau, dysgu, hyfforddi, ansawdd a diogelwch ar draws yr holl unedau a gwasanaethau trafnidiaeth newyddenedigol. Mae'r Rhwydweithiau Newyddenedigol a Mamolaeth yn

gwneud gwaith cyfochrog, ond sy'n cyd-fynd, i gydlynu ar sail Cymru Gyfan pob ymyriad iechyd effeithiol i wella canlyniadau newyddenedigol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau ataliol a gofal o feichiogiad hyd at yr esgor a'r rhyddhau o'r uned newyddenedigol.

42. Mae datblygiadau mewn gwybodaeth a thechnoleg yn golygu bod y siawns o oroesi ar gyfer babanod sy'n cael eu geni yn gynnar neu'n sâl yn well nag erioed o'r blaen. Codwyd y safonau, cafodd y rhai a bennwyd yn 2008 eu disodli gan fersiwn 2013, ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu eto i gadw i fyny â datblygiadau mewn gofal.

43. Er mwyn cefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau newyddenedigol, mae newidiadau strwythurol yn cael eu gweithredu yng Ngogledd a De Cymru. Cymeradwyodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yr achos busnes llawn dros y Ganolfan Gofal Dwys Newyddenedigol Isranbarthol newydd ym mis Gorffennaf. Mae'r newidiadau ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi helpu i gynyddu cydymffurfiad â safonau newyddenedigol. Mae gwelliannau i drafnidiaeth newyddenedigol yn cael eu darparu hefyd. Yn ychwanegol at y gwasanaethau cludiant 24 awr a ddarperir ar draws Gogledd Cymru, mae Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru wedi cytuno ar gynigion i lefel debyg o wasanaeth gael ei gweithredu ar draws De Cymru. Mae'r Rhwydwaith Newyddenedigol yn monitro cynnydd byrddau iechyd yn agos yn erbyn y safonau newyddenedigol, ac mae byrddau iechyd yn gwneud cynnydd cyson o ran bodloni neu ddod yn nes at Safonau Newyddenedigol Cymru Gyfan. Rwy'n disgwyl i hyn barhau yn erbyn yr hyn sydd, yn briodol, yn safonau sy'n mynd yn fwyfwy llym. Yn y pen draw, rydym am weld canlyniadau gwell ar gyfer yr holl fabanod newyddenedigol yng Nghymru, gydag ymyriadau iechyd yn ystod beichiogrwydd yn lleihau'r risg y bydd ar fabanod angen gwasanaethau newyddenedigol arbenigol yn y lle cyntaf. Dangosodd adroddiad MBRRACE gyhoeddwyd ym mis Mai 2016 fod canlyniadau newyddenedigol Cymru yn cymharu â rhai'r DU yn gyffredinol, a'u bod yn well nag ardaloedd tebyg ag amddifadedd uchel. Byddwn yn parhau i ddatblygu ar hyn ac yn ymdrechu i sicrhau gwelliannau pellach, ond mae'r mesur deilliant allweddol hwn yn dangos bod Cymru yn cwrdd â'r heriau yn effeithiol.

44. Un agwedd sy'n greiddiol i gyflawni'r safonau newyddenedigol yw'r gweithlu, yn enwedig sefydliadau nyrsio. Mae sefydliadau nyrsys wedi gwella yng Nghymru ers 2011, er gwaethaf effaith llymder, ac mae'r pecyn £85 miliwn o gymorth ar gyfer addysg a hyfforddiant i weithwyr iechyd proffesiynol a gyhoeddwyd gan y Gweinidog blaenorol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu cyllid ychwanegol i sicrhau bod gennym staff gyda'r sgiliau a'r hyfforddiant priodol i ddarparu gwasanaethau yn ddiogel ac yn effeithiol, gan gynnwys gwasanaethau newyddenedigol arbenigol.

**<u>GWEITHLU'R MEDDYGON TEULU YNG NGHYMRU</u>**

45. Roedd y camau gweithredu a gynhwysid yn y Cynllun Gweithlu Gofal Sylfaenol, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2015, yn seiliedig ar yr argymhellion a wnaed o dan ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i weithlu'r meddygon teulu. Mae'r cynnig sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i gefnogi'r ymgyrch farchnata yn ymdrin yn benodol â nifer o'r meysydd hyn yn cynnwys cyfweliadau

wrth ymadael, amlygiad i ymarfer cyffredinol, cymhellion i ymarfer mewn ardaloedd penodol o Gymru a chadw Meddygon Teulu profiadol.

**AD-DREFNU YSBYTAI**

46. Gwelodd y Pedwerydd Cynulliad ymgynghoriadau pwysig ar ad-drefnu gwasanaethau ysbytai ar draws Cymru.

47. Yng Ngogledd Cymru, mae nifer o ysbytai cymunedol hen ac wedi dyddio wedi cau neu wedi cau yn rhannol. Mae'r rhain yn cael eu disodli gan ganolfannau adnoddau gofal sylfaenol newydd ym Mlaenau Ffestiniog, Y Fflint a Llangollen, a ariennir gan gyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru.

48. Yng Ngorllewin Cymru, roedd newidiadau yn cynnwys canolbwyntio gwasanaethau newyddenedigol, gwasanaethau mamolaeth dan arweiniad ymgynghorwyr a gwasanaethau pediatrig i gleifion mewnol yn Ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin; a chyflwyno gwasanaeth brys dan arweiniad ymarferydd nyrsio brys/meddyg teulu yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli. Mae'r newidiadau wedi gweithio'n dda ac wedi arwain at well cydymffurfiaeth â safonau clinigol ac wedi helpu i ymdrin â materion recriwtio a staffio. Mae adolygiad diweddar gan Goleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant wedi cadarnhau bod y gwasanaethau newyddenedigol, mamolaeth a phediatrig bellach yn ddiogel, yn gynaliadwy yn y tymor hir ac maent wedi arwain at ganlyniadau gwell i famau a babanod yn yr ardal.

49. Mae gwaith yn parhau ar y cynlluniau gweithredu manwl sy’n ymwneud â'r gwasanaethau a gynhwysir o fewn Rhaglen De Cymru, gan gynnwys y model manwl ar gyfer pediatreg, gwasanaethau newyddenedigol ac obstetrig. Derbyniwyd achosion busnes ar gyfer buddsoddi i gefnogi'r newidiadau hyn. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi agor canolfan meddygaeth acíwt newydd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn ddiweddar i wella ansawdd y gofal a ddarperir yn lleol ac i helpu i leddfu'r pwysau ar ei adran Damweiniau ac Achosion Brys. Mae'r ysbyty yn mynd i gael ei ddatblygu fel 'safle disglair' ar gyfer meddygaeth acíwt yn y rhanbarth, ac mae arian cyfalaf wedi ei glustnodi ar gyfer y flwyddyn nesaf i gefnogi’r hwb diagnostig yn yr ysbyty.

50. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cyflwyno Achos Busnes Llawn ar gyfer y Ganolfan Gofal Arbenigol Critigol (SCCC) i Lywodraeth Cymru. Mae'r SCCC yn fuddsoddiad sylweddol i'r GIG yng Nghymru ac mae rhyddhau cyllid o £36.930 miliwn wedi ei glustnodi o Raglen Gyfalaf Cymru Gyfan yn 2016-17, yn amodol ar ganlyniad proses yr achos busnes.

51. Canolfan Ganser arfaethedig newydd Felindre fydd prosiect cyntaf Llywodraeth Cymru i’w ddatblygu gan ddefnyddio model cyllid arloesol Partneriaethau Cyhoeddus Preifat (PPP). Mae Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn gwneud cynnydd rhagorol ar ddatblygu'r prosiect ar gyfer y Ganolfan Ganser newydd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cyflwyno Achos Busnes Amlinellol i'w Fwrdd ar ddiwedd mis Tachwedd 2016 a bydd y Ganolfan ar agor erbyn diwedd 2022. Bydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn cyflwyno Achos Busnes y Rhaglen (PBC) sy'n disgrifio datblygiad gwasanaethau canser ar draws De Ddwyrain Cymru. Mae'n edrych ar ddarparu gwasanaethau mor agos i'r cartref â phosibl, lle mae hynny

yn ddiogel ac yn addas.  Yn ychwanegol at y Ganolfan Ganser, bydd y rhaglen yn edrych ar ddarparu gwasanaethau radiotherapi lloeren yn y gymuned.

52. Mae enghreifftiau eraill o newid mewn gwasanaethau yn Ne Cymru wedi bod yn llai amlwg ond serch hynny yn arwyddocaol.  Er enghraifft, mae byrddau iechyd prifysgol Cwm Taf ac Aneurin Bevan wedi ailgynllunio eu gwasanaethau strôc er mwyn galluogi mwy o gleifion i ddychwelyd adref yn gynt a chael eu cefnogi drwy eu hailsefydlu yn eu cartrefi eu hunain.  Gwnaed hyn ar y cyd â'r gymuned leol a'r cynghorau iechyd cymuned.

53. Cyflawnwyd adolygiad o wersi a ddysgwyd o ymarferiadau ymgynghori ac ymgysylltu ynghylch newid yng ngwasanaethau'r GIG gan fyrddau iechyd yng Nghymru gan Ann Lloyd CBE yn 2014.  Gwnaed newidiadau sylweddol i iteriad 2016-17 o ganllawiau Fframwaith Cynllunio GIG Cymru i adlewyrchu'r pwysigrwydd a rydd Llywodraeth Cymru ar ymgysylltu parhaol fel dull o gyflawni newid mewn gwasanaeth a chynllunio ar gyfer cyflawni gwasanaethau gofal iechyd yn gyffredinol.  Mae hyn yn cynnwys pennod newydd yn pwysleisio bod cynllunio fel gweithgaredd craidd yn gofyn am lefel uchel o ymgysylltiad parhaus i ddatblygu atebion a chynlluniau y gellir eu cyflawni.  Dylai cynlluniau tymor canolig integredig byrddau iechyd ddarparu tystiolaeth o'r dulliau a gymerwyd i sicrhau bod ymgysylltu ystyrlon yn digwydd ynghylch newid i wasanaethau a chynlluniau eraill.  Rhaid i ymgysylltu hefyd ddigwydd ar nifer o lefelau: cymunedau lleol; byrddau; staff rheng flaen ac unedau cyflenwi; sefydliadau partner; a chydweithrediadau rhanbarthol ar draws GIG Cymru.

**<u>DEFNYDDIO CYFFURIAU GWRTHSEICOTIG</u>**

54. O ganlyniad i Adolygiad o Gartrefi Gofal y Comisiynydd Pobl Hŷn, mae byrddau iechyd wedi cytuno i gyhoeddi gwybodaeth yn flynyddol am y defnydd o gyffuriau gwrth-seicotig mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

55. Cafodd argymhelliad 3.5 o adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn *A place called home* 2015, ynghylch cyhoeddi'r defnydd o gyffuriau gwrthseicotig mewn cartrefi gofal yn flynyddol, ei wneud i'r Byrddau Iechyd Lleol.  Nid oedd hwn yn argymhelliad i Lywodraeth Cymru.  Nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu data rhagnodi ar y lefel hon.  Mae data cenedlaethol yn cael eu casglu yn ôl enw'r cyffur a'r nifer o weithiau y mae'r cyffur yn cael ei ddosbarthu.  Ar hyn o bryd dim ond yn lleol y mae'n bosibl i Fyrddau Iechyd Lleol fonitro hyn trwy ddefnyddio mecanweithiau lleol a mater i'r Byrddau Iechyd Lleol yw cyhoeddi gwybodaeth o'r fath.  Mae gwaith yn dechrau ym mis Medi i ddatblygu Cynllun Gweithredu Strategol i Gymru ar gyfer Dementia erbyn diwedd y flwyddyn, ac mae rhagnodi mewn dementia yn debygol o gael ei ystyried yn y cyd-destun hwnnw.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Busnes

National Assembly for Wales
Business Committee

Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

21 Gorffennaf 2016

Annwyl Gadeirydd

**Datganiadau Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn**

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'r Pwyllgor Busnes wedi dechrau trafod sut y gellir sicrhau mwy o amrywiaeth yn ystod amser y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn. Ysgogwyd hyn yn rhannol gan adroddiad etifeddiaeth Pwyllgor Busnes y Pedwerydd Cynulliad, a oedd yn cynnwys yr argymhelliad a ganlyn:

"Dylai'r Pwyllgor Busnes newydd ystyried amserlennu busnes mwy amrywiol yn ystod amser nad yw ar gyfer y Llywodraeth, gan gynnwys mwy o fusnes pwyllgorau i wella integreiddio rhwng y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau. Gallai mathau o fusnes gynnwys, er enghraifft, datganiadau ar ddechrau ymchwiliadau pwyllgor, adroddiadau blynyddol gan bwyllgorau, pynciau dadleuon a ddewisir gan bobl ifanc a rhanddeiliaid eraill, a chyfres o ddadleuon ar thema benodol."

Rwy'n rhannu'r farn y gellir defnyddio amser yn y Cyfarfod Llawn yn fwy effeithiol. Yn ystod tymor yr hydref, byddaf yn cyflwyno cynigion i Reolwyr Busnes eu hystyried, gyda'r bwriad o ehangu ar gyfleoedd i Aelodau graffu ar y Llywodraeth a chynrychioli eu hetholwyr.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Busnes wedi gwneud penderfyniad cynnar y byddai'n hoffi gweld mwy o integreiddio rhwng y Cyfarfod Llawn a gwaith y pwyllgorau, ac mai un ffordd o wneud hynny fyddai galw ar Gadeiryddion pwyllgorau i wneud datganiadau yn y Cyfarfod Llawn o bryd i'w gilydd ynghylch gwaith a blaenoriaethau eu pwyllgorau. Er mai rôl i'r Cadeiryddion, mewn ymgynghoriad â'u pwyllgorau, yw penderfynu pryd yr hoffent wneud datganiad, mae'r cyfleoedd yr hoffem eu hannog yn y lle cyntaf yn cynnwys dechrau ymchwiliadau, o bosibl er



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddSiambr@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/PwyllgorBusnes
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddChamber@assembly.wales
www.assembly.wales/BusinessCommittee
0300 200 6565

mwyn helpu i lywio gwaith y pwyllgor, ar ôl gorffen gwaith dilynol, neu pan fydd pwyllgor yn ystyried ei raglen waith ar gyfer y cyfnod sydd i ddod.

Credwn y byddai datganiadau o'r fath yn adnodd defnyddiol i godi proffil gwaith pwyllgorau ymysg Aelodau eraill a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol, ac yn caniatáu mwy o ymgysylltiad ag ymchwiliadau'r Pwyllgor, a dealltwriaeth o'r ymchwiliadau hyn, gan y rhai nad ydynt yn gysylltiedig â hwy yn uniongyrchol. Os defnyddir y datganiadau hyn mewn modd priodol, rydym yn hyderus y gallai datganiadau o'r fath, a'r ymatebion iddynt, fod yn ddull gwerthfawr o lywio gwaith a blaenoriaethau'r pwyllgorau. Byddai diben y datganiadau hyn, felly, yn wahanol i ddiben y dadleuon ar adroddiadau pwyllgor, sy'n nodwedd gyfarwydd o fusnes y Cynulliad yr ydym am iddi barhau.

Mae'r Pwyllgor Busnes yn cyfarfod bob wythnos i gytuno ar drefn busnes y Cynulliad, ac er y gellir gwneud datganiadau heb rybudd gyda fy nghaniatâd, byddem fel arfer yn disgwyl i unrhyw gais i neilltuo amser ddod i law o leiaf wythnos cyn gwneud y datganiad er mwyn i'r eitem ymddangos ar y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ystyried sut y gallech chi a'ch Pwyllgor ddefnyddio datganiadau mewn Cyfarfod Llawn, a byddwn yn eich annog i gynnig datganiadau yn y dyfodol agos. Yr wyf yn ymwybodol bod nifer o bwyllgorau yn lansio ymchwiliadau newydd ac yn penderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer tymor yr hydref, felly mae'r cyfnod i ddod yn cynnig cyfle perffaith i dreialu datganiadau pwyllgor. Gobeithiaf y gallwch chwarae eich rhan mewn sicrhau llwyddiant y fenter hon.

Elin Jones AC, Llywydd y Cynulliad
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

National Assembly for Wales
External Affairs and Additional Legislation Committee

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

25 Awst 2016

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau,

**Y goblygiadau i Gymru oherwydd i'r DU benderfynu gadael yr Undeb Ewropeaidd**

Fel y gwyddoch, sefydlwyd pwyllgor polisi a deddfwriaeth ychwanegol i leihau'r pwysau ar bwyllgorau eraill ac i graffu ar faterion eraill sydd o bwys i'r cyhoedd.

Gwnaeth y Rheolwyr Busnes ailystyried cylch gwaith y pwyllgor hwn yn sgil canlyniad Refferendwm yr UE, gan gytuno y dylai flaenoriaethu gwaith ar yr effaith y bydd gadael yr UE yn ei chael ar Gymru.

O ganlyniad, newidiwyd ei enw i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ('y Pwyllgor Materion Allanol').

Hoffwn dynnu eich sylw at y cylch gwaith dros dro a gynigir gan y Pwyllgor Busnes ar gyfer y Pwyllgor Materion Allanol:

1. Archwilio'r goblygiadau i Gymru oherwydd i'r Deyrnas Unedig benderfynu gadael yr Undeb Ewropeaidd a sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu yn ystod y broses adael, mewn unrhyw berthynas newydd â'r UE ac yn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPDWG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPDWG
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddRPL@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddRPL
0300 200 6565

nhrefniadau gwledydd y DU ar ôl gadael ar gyfer materion perthnasol o ran polisi, cyllid a deddfwriaeth.

2. Cydlynu gweithgarwch ar draws pwyllgorau'r Cynulliad mewn perthynas â phwynt 1 uchod.
3. Cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21.8 i 21.11.
4. Ystyried unrhyw fater arall, gan gynnwys deddfwriaeth, a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

Mae rhagor o wybodaeth yn adroddiad y Pwyllgor Busnes ar ddiwygio cylch gwaith y Pwyllgor, sydd wedi'i amgáu gyda'r llythyr hwn.

Bydd y Pwyllgor Busnes yn cyflwyno cynnig i ddiwygio cylch gwaith y Pwyllgor Materion Allanol yn ffurfiol er mwyn i'r Cynulliad gytuno arno ddydd Mercher 14 Medi 2016.

Bydd angen i ni arfer dull cydlynol wrth i wahanol bwyllgorau'r Cynulliad graffu ar y materion hyn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi a yw eich pwyllgor yn bwriadu gwneud unrhyw waith sy'n ymwneud ag ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE, neu unrhyw agwedd arall ar ein cylch gwaith. Hoffwn hefyd gynnig gwahoddiad agored i chi fynychu unrhyw gyfarfod o'r Pwyllgor Materion Allanol sy'n ymwneud â materion sy'n rhan o gylch gwaith eich pwyllgor chi.

Rwy'n edrych ymlaen at ddatblygu perthynas waith adeiladol â chi wrth i'r gwaith pwysig hwn fynd yn ei flaen.

Yn gywir,

David F. Rees.

David Rees AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Adroddiad y Pwyllgor Busnes ar adolygu cylch gwaith y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**

## Diben y Pwyllgor

Bydd angen i'r Pwyllgor sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu mewn trafodaethau a phenderfyniadau ynghylch:

- penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd;
- perthynas y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol; a'r
- trefniadau o fewn y DU ar ôl gadael yr UE o ran polisïau, cyllid a deddfwriaeth sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd.

Yn gryno, mae'r gwaith hwn yn ymwneud â thri lle sy'n ddibynnol ar ei gilydd: Caerdydd, Llundain a Brwsel.

## Y camau gweithredu

Gellid gweithredu mewn cyfres o gamau graddol, fel a ganlyn:

*Deall y goblygiadau* – Asesiad cynhwysfawr o'r goblygiadau i Gymru o ran polisi, arian, deddfwriaeth a'r cyfansoddiad. Defnyddio arbenigedd y Comisiwn a'r Llywodraeth, ac arbenigedd o'r sector academaidd a'r trydydd sector i gyflawni hyn. Gallai gynnull panel arbenigol i gynorthwyo â'r agwedd hon ar ei waith.

*Deall y camau ymarferol* – Pan fydd maint a manylion y goblygiadau yn ddealladwy, gallai'r Pwyllgor edrych ar yr hyn sydd angen ei wneud i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli'n ddigonol ac y gweithredir arnynt yn ystod y trafodaethau i adael yr UE. I wneud hynny, byddai'n craffu ar strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli'r broses hon a byddai hefyd, os oes angen, yn argymell dulliau amgen.

*Deall buddiannau Cymru* – Gallai'r Pwyllgor fod â rhan gadarnhaol o ran bod yn llwyfan ar gyfer deialog rhwng y rhanddeiliaid a'r trafodaethau gadael, gan sicrhau y caiff safbwyntiau'r rhanddeiliaid eu clywed, a rhoi gwybod, at ddibenion craffu, am y rhai sy'n ymwneud â'r trafodaethau. Yn ogystal, gall fwydo cynnydd yn ôl wrth i'r trafodaethau fynd rhagddynt a gallai hynny

helpu i sicrhau bod y rhanddeiliaid yn dal i gael eu cynnwys a bod y Cynulliad ar y blaen o ran cynrychioli pobl Cymru.

*Dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif* – Gallai'r Pwyllgor ddefnyddio'r wybodaeth a gafodd yng nghyfnodau cynharaf ei waith i graffu ar waith Llywodraeth Cymru a dylanwadu ar y broses adael.

Drwyddi draw, byddai'r sylw ar sicrhau'r canlyniad gorau posibl i bobl Cymru.

Lle bo pwyllgor yn gallu cefnogi Llywodraeth Cymru, gallai'r gymeradwyaeth drawsbleidiol hon gryfhau sefyllfa Cymru. Os bydd pwyllgor yn gwneud beirniadaeth adeiladol, gallai hyn hefyd gryfhau'r posibilrwydd o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer Cymru os bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu arnynt.

Gallai'r gwaith i ddeall y goblygiadau ac i gynnwys rhanddeiliaid ddechrau ar unwaith. Mae'n gyfle i wneud y Cynulliad yn fforwm i drafod materion sy'n benodol i Gymru o ran ymadawiad y DU o'r UE.

Bydd pwyllgorau eraill yn awyddus i archwilio goblygiadau'r trafodaethau ar gyfer polisi domestig. Gallai'r pwyllgor hwn gydlynu'r gwaith hwnnw a defnyddio hynny i ategu ei waith ei hun (yn hytrach na dyblygu). Noda'r Pwyllgor Busnes y bydd Fforwm y Cadeiryddion yn trafod hyn yn ystod tymor yr hydref.

Er mwyn cael y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y gwaith hwn, bydd angen i'r Pwyllgor (a'r Cadeirydd yn benodol) sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys mewn rhwydweithiau rhyngseneddol megis fforwm EC-UK, bod ganddo ddealltwriaeth drylwyr o'r hyn sy'n digwydd ym Mrwsel ac yn Llundain a'i fod mewn sefyllfa i ymateb yn rhwydd a chyflym wrth i bethau ddatblygu.

Gallai'r Pwyllgor Busnes ystyried a ddylai fod yn ofynnol i'r Pwyllgor hwn roi adroddiad i'r Cynulliad yn rheolaidd.

**Deddfwriaeth Ychwanegol**

Gallai’r Pwyllgor hwn graffu ar ddeddfwriaeth, mewn unrhyw faes pwnc a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes, os nad oes digon o gapasiti i graffu ar y ddeddfwriaeth honno o fewn strwythur presennol y pwyllgorau.

Byddai hefyd yn rhesymegol i roi'r cyfrifoldebau am ddeddfwriaeth ddrafft yr Undeb Ewropeaidd i'r Pwyllgor hwn. Ar hyn o bryd mae'n rhan o waith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Nid oes dim i atal y Pwyllgor Busnes rhag adolygu'r trefniadau hyn yn y dyfodol.

**Cylch gwaith diwygiedig a gynigir gan y Pwyllgor Busnes i’r Cynulliad**

**Mae’r Pwyllgor Busnes yn cynnig y cylch gwaith a ganlyn**:

1. Archwilio'r goblygiadau i Gymru oherwydd i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd, a sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu yn ystod y broses adael, mewn unrhyw berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd ac yn y trefniadau o fewn y DU ar ôl gadael ar gyfer yr agweddau perthnasol ar bolisi, cyllid a deddfwriaeth.
2. Cydlynu gweithgareddau ar draws pwyllgorau'r Cynulliad mewn perthynas â phwynt 1 uchod.
3. Cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21.8 i 21.11.
4. Ystyried unrhyw fater arall, gan gynnwys deddfwriaeth, a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

Bydd angen newid cyfatebol hefyd i gylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Eitem 6.3

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

18 Gorffennaf 2016

Annwyl Dai

**Bil Cymru**

Ar hyn o bryd, rydym yn craffu ar Fil Cymru wrth iddo barhau ar ei daith drwy Senedd y DU. Daeth y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin i ben ar 11 Gorffennaf, ac rydym yn rhagweld y bydd y cyfnod adrodd a'r trydydd darlleniad yn digwydd ym mis Medi, cyn i'r Bil fynd yn ei flaen i Dŷ'r Arglwyddi.

Rydym eisoes wedi cael tystiolaeth gan ystod o academyddion ac arbenigwyr cyfreithiol, fel y Prif Weinidog a'r Llywydd. Rydym hefyd wedi gwahodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru i roi tystiolaeth. Fodd bynnag, hyd yma, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwrthod y gwahoddiad.

Gwnaethom gynnal digwyddiad ardderchog yng nghwmni rhanddeiliaid i drafod y Bil yn Siambr Hywel yn gynharach y mis hwn, gan ddwyn ynghyd rhanddeiliaid o'r proffesiwn cyfreithiol, y byd academaidd a'r meysydd polisi datganoledig. Er mwyn adeiladu ar y digwyddiad hwn, rydym wedi lansio fforwm ymgysylltu ar-lein i barhau â'r drafodaeth gyda rhanddeiliaid wrth i'r Bil fynd rhagddo.

Roedd ein rhagflaenydd ni fel Pwyllgor yn gallu tynnu ar y gwaith rhagorol a wnaethpwyd gan eich rhagflaenydd chi fel Pwyllgor wrth drafod y Bil drafft. Roedd gwaith y pwyllgorau yn arbennig o ddefnyddiol, yn enwedig wrth ystyried effaith cymalau cadw penodol ar bolisi o fewn eu cylchoedd gwaith ac ar y gallu i lunio cyfreithiau dealladwy a chydgysylltiedig. Amgaeaf gopi o'r ohebiaeth hon er gwybodaeth i chi.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Byddem, felly, yn croesawu clywed unrhyw sylwadau sydd gennych ar Fil Cymru, yn arbennig o ran effaith y cymalau cadw ar eich cylchoedd gwaith a'r cwestiwn a yw gwaith craffu cyn deddfu wedi newid y sefyllfa a amlinellwyd mewn llythyrau gan eich rhagflaenydd fel Pwyllgor.

Mae ein Pwyllgor yn gobeithio dylanwadu ar waith Tŷ'r Arglwyddi wrth graffu ar y Bil, yn ogystal â chyfoethogi dadl y Cynulliad pan fydd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei gyflwyno. Er nad oes gennym amserlen benodol ar gyfer ein trafodaethau, os ydych yn dymuno ymateb, mi fyddai o gymorth i ni pe bai'r wybodaeth hon yn dod i law yn ystod wythnosau cyntaf tymor yr hydref.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 9

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon